CYNGOR RHONDDA CYNON TAF

**Cais yn ymwneud â Swydd Arall**

Rhaid i chi gwblhau'r ddogfen yma'n llawn a'i hanfon ymlaen at eich rheolwr llinell i'w hystyried.

Mae eich contract yn nodi bod rhaid i chi roi eich amser gwaith llawn i'r Cyngor. Does dim modd i chi ymgymryd ag unrhyw swydd, rôl gyhoeddus, na phenodiad arall heb ganiatâd y Cyngor.
Mae'r Cyngor yn deall bod gan rai gweithwyr swyddi ychwanegol neu eu bod yn gwneud gwaith gwirfoddol. Os felly, rhaid dilyn y rheolau yma:

- Ddylech chi ddim gwneud y gwaith yma yn ystod oriau gwaith eich cytundeb gyda'r Cyngor.
- Ddylech chi ddim cymryd unrhyw swydd (gan gynnwys hunangyflogaeth) sy'n gwrthdaro â buddiannau'r Cyngor neu sy'n niweidio ymddiriedaeth y cyhoedd yn y Cyngor.
- Os ydych chi'n bwriadu gwneud gwaith preifat o fewn y Fwrdeistref Sirol a allai ymwneud â'r Cyngor, rhaid i chi roi gwybod i ni a chael cymeradwyaeth gan y Prif Swyddog.

## 1. Manylion Personol

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Teitl swydd: | |
| Cyfadran/Gwasanaeth: | |
| Oriau gwaith: | |
| Nifer y diwrnodau/sifftiau: | |
| Patrwm gwaith: | |

## 2. Manylion y swydd neu waith arall

Mae gen i swydd neu waith arall: Oes / Nac oes

Rwy'n ystyried ymgymryd â swydd neu waith arall: Ydw / Nac ydw

Enw, cyfeiriad a rhif cyswllt y cyflogwr/busnes:

| |
|---|
| |

Natur y swydd neu waith arall (disgrifiad byr o ddyletswyddau a chyfrifoldebau gan gynnwys y risgiau sy'n rhan o'r gwaith):

| |
|---|
| |

Math o waith: ❑ Â thâl ❑ Heb dâl ❑ Gwirfoddol

❑ Achlysurol

| | |
|---|---|
| Oriau'r swydd neu waith arall: | |
| Patrwm gwaith: | |
| Dyddiad Cychwyn Arfaethedig/ Dyddiad Cychwyn: | |

**3. Datganiad**

Rwy'n datgan bod yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn adran 1 a 2 yn gywir a dydw i ddim o'r farn y bydd y gwaith arall/hunangyflogaeth yn yr achos hwn yn cael effaith andwyol ar fy ngwaith gyda Chyngor Rhondda Cynon Taf.

**Rydw i'n cadarnhau'r canlynol:**

*Dileu fel sy'n briodol

* Dydw i ddim yn ymwybodol o unrhyw wrthdaro buddiannau posibl

* Byddaf yn trafod unrhyw wrthdaro buddiannau posibl gyda fy rheolwr llinell

Rwy'n cadarnhau fy mod i'n deall y bydd y trefniant yma'n destun adolygiad blynyddol. Os bydd effaith andwyol ar fy lles, fy mhresenoldeb neu fy nghyflawniad yn y gwaith, mae'n bosibl y bydd y caniatâd yma'n cael ei dynnu'n ôl.

Rwy'n cadarnhau, lle mae'n ofynnol i mi fod wedi cofrestru'n broffesiynol gyda chorff proffesiynol i ymgymryd â'r gwaith yma, fy mod i wedi rhoi gwybod am fy swydd neu waith arall a natur annibynnol y gwaith ychwanegol yma.

**Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau nad yw'r oriau gwaith a'r patrwm gwaith cyfunol yn torri'r 'Gyfarwyddeb Oriau Gwaith' a'i fod yn cydymffurfio â gofynion CThEF.**.

| | |
|---|---|
| Llofnod y gweithiwr: | |
| Enw (priflythrennau): | |
| Dyddiad: | |

**I'w gwblhau gan y Rheolwr Llinell**

| | |
|---|---|
| Dyddiad derbyn y cais: | |
| Dyddiad trafod y cais gyda'r gweithiwr: | |
| Adolygiad Blynyddol o'r Trefniadau i'w gynnal erbyn: | |

4a. <u>Gwrthdaro Buddiannau Posibl</u>

A oes unrhyw wrthdaro buddiannau posibl? Oes / Nac oes

Os 'oes', nodwch fanylion isod:

| |
|---|
| |

4b. <u>Ystyried Rheoliadau Amser Gwaith</u>

Oes modd i batrwm gwaith presennol y gweithiwr ddarparu ar gyfer y swydd neu waith arall arfaethedig, heb beryglu rhwymedigaethau'r Cyngor yn rhan o'r Gyfarwyddeb Oriau Gwaith? Oes / Nac oes

4c. <u>Ystyried Presenoldeb a Chyflawniad y Gweithiwr</u>

Oes unrhyw bryder yn ymwneud â phresenoldeb a/neu gyflawniad y gweithiwr yn ei rôl bresennol a fydd yn effeithio ar y cais i ymgymryd â swydd neu waith arall?

Oes / Nac oes

Os 'oes', nodwch fanylion isod:

| |
|---|
| |

| | |
|---|---|
| Llofnod y Rheolwr: | |
| Enw (priflythrennau): | |
| Dyddiad: | |

**5.0 Cymeradwyaeth gan Bennaeth y Gwasanaeth**

Cais wedi'i gymeradwyo Ydy / ~~Nac ydy~~

Os 'ydy', defnyddiwch y gofod isod i gofnodi unrhyw sylwadau a/neu amodau sy'n ymwneud â'r cytundeb:

Os 'nac ydy', defnyddiwch y gofod isod i nodi manylion llawn eich penderfyniad:

| | | |
|---|---|---|
| Llofnod Pennaeth ____: | | |
| Enw (priflythrennau): | | |
| Dyddiad Rhoi Gwybod i'r Gweithiwr am y Penderfyniad | | |

Ar ôl rhoi gwybod i'r gweithiwr am y penderfyniad, anfonwch y ffurflen wedi'i llenwi at y garfan Adnoddau Dynol i'w chadw ar ffeil bersonol y gweithiwr.